Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Materion cyfansoddiadol

## Adroddiad Monitro

**Medi 2026**



Rhagor o wybodaeth:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NS**

Tel: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Materion cyfansoddiadol

## Adroddiad Monitro

**Medi 2026**

**Awduron:**
Adam Cooke

Bwriad yr adroddiad monitro hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau o'r Senedd a rhanddeiliaid sydd â diddordeb am ddatblygiadau polisi allweddol sy'n ymwneud â materion cyfansoddiadol.

Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng **7 Mai 2026** a **2 Medi 2026.**Gan mai hwn yw adroddiad cyntaf y Seithfed Senedd, mae datblygiadau cyn yr etholiad sy'n debygol o barhau i fod yn berthnasol hefyd wedi'u cynnwys.

**Rhagor o wybodaeth:**
**ymchwil.senedd.cymru**



# Cynnwys

**1. Cyfansoddiad: Cymru ..... 6**

Cyn yr etholiad: ..... 6

Ar ôl yr etholiad: ..... 7

**2. Cyfansoddiad: Y DU ..... 9**

**3. Cysylltiadau rhynglywodraethol a rhyngseneddol ..... 11**

Cysylltiadau rhynglywodraethol ..... 11

**4. Etholiadau ac ymgysylltu ..... 13**

Cyn yr etholiad: ..... 13

Ar ôl yr etholiad: ..... 14

**5. Deddf Marchnad Fewnol y DU a fframweithiau cyffredin ..... 16**

Cyn yr etholiad: ..... 16

Ar ôl yr etholiad: ..... 17

**6. Cydsyniad deddfwriaethol a deddfu ..... 18**

Cyn yr etholiad: ..... 18

Ar ôl yr etholiad: ..... 18

# 1. Cyfansoddiad: Cymru

**Cyn yr etholiad:**

**Ym mis Mawrth 2026, rhoddodd Llywodraeth flaenorol Cymru y wybodaeth ddiweddaraf am ei hymrwymiad i "gryfhau['r] setliad datganoli".**

Yn y datganiad ysgrifenedig, nododd Llywodraeth Cymru:

- ei bod wedi cytuno ar **ddatganiad ar y cyd** â Llywodraeth y DU, gan gynnwys ymrwymiadau i ddatganoli cyfrifoldebau dros ariannu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol ac ehangu rôl oruchwylio Llywodraeth Cymru yn y gwasanaethau hyn;
- ei bod wedi cytuno, ochr yn ochr â Llywodraeth y DU a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, **i lunio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** ar y gwasanaeth prawf erbyn diwedd 2026;
- ei bod wedi cytuno ar **Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth** â Llywodraeth y DU ar ddiwygio'r rheilffyrdd;
- ei bod wedi cytuno â Llywodraeth y DU ar sut y bydd ei hymrwymiad i **ddatganoli cyllid cymorth cyflogaeth y tu hwnt i Ganolfannau Byd Gwaith** i Gymru yn cael ei gyflawni;
- bod y Grŵp ar Ddyfodol Ystâd y Goron yng Nghymru wedi **cyhoeddi ei adroddiad interim**.

Nododd Llywodraeth flaenorol Cymru gytundebau eraill â Llywodraeth y DU cyn yr etholiad, gan gynnwys:

- cynnal **ymgynghoriad ar y cyd** ar ddatganoli pwerau i gyflwyno Treth Tir Gwag i'r Senedd; a
- **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** ynghylch cyllid a ddarperir i gyflawni'r Cronfeydd Twf Lleol yng Nghymru.

**Dyfarnodd yr Uchel Lys yn achos Bwrdd Milgwn Prydain Fawr v Gweinidogion Cymru, Comisiwn y Senedd a'r Llywydd.**

Gwrthododd y Llys hawliad am adolygiad barnwrol a oedd yn herio penderfyniad Gweinidogion Cymru i gyflwyno **Bil Gwahardd Rasio Milgwn**

(Cymru) i'r Senedd. Dadleuodd y Bwrdd y dylai Gweinidogion Cymru fod wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn cyflwyno'r Bil.

Dywedodd y barnwyr mai'r Senedd, yn gyffredinol, sy'n penderfynu ar ei phen ei hun ar y weithdrefn i'w mabwysiadu wrth ddeddfu, ac felly na fyddai'n briodol, yn gyffredinol, i'r llysoedd ystyried cwynion gweithdrefnol am y modd yr oedd y Senedd wedi ystyried y Bil.

**Ar ôl yr etholiad:**

**Ym mis Mehefin 2026, amlinellodd y Gweinidog Cabinet dros Effeithiolrwydd Llywodraeth a'r Cyfansoddiad, Dafydd Trystan Davies AS, ei flaenoriaethau.**

Mae'r rhain yn cynnwys datblygu ysgol lywodraethu er mwyn sefydlu canolfan ragoriaeth ar gyfer arweinyddiaeth a gallu mewn gwasanaethau cyhoeddus, galw am Fil Cymru newydd i ddiwygio'r setliad cyfansoddiadol a sefydlu comisiwn cenedlaethol sefydlog ar y cyfansoddiad.

**Ym mis Mehefin 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i adroddiad blynyddol Ystâd y Goron.**

Dywedodd y Gweinidog Cabinet dros Effeithiolrwydd Llywodraeth a'r Cyfansoddiad y bydd Llywodraeth Cymru yn "parhau i weithio'n adeiladol gydag Ystâd y Goron a Llywodraeth y DU ar ein huchelgais o ddatganoli'n llawn ar gyfer Ystâd y Goron".

**Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ysgol lywodraethu genedlaethol i Gymru, sef Arwain.**

Owen Evans, Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn Estyn, fydd yn cadeirio bwrdd llywio Arwain. Roedd hyn yn un o ymrwymiadau Plaid Cymru ar gyfer ei 100 diwrnod cyntaf ar ôl ffurfio llywodraeth.

**Ym mis Mai 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw risg gyfreithiol y Cwnsler Cyffredinol.**

Mae'r canllawiau ar gyfer cyfreithwyr sy'n cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch a yw penderfyniadau arfaethedig yn gyfreithlon.

**Ar 2 Medi 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar y cynnydd o ran yr ymrwymiadau a wnaed fel rhan o'i chynllun ar gyfer ei 100 diwrnod cyntaf.**

Roedd yr ymrwymiadau yn y cynllun a oedd yn ymwneud â'r cyfansoddiad yn cynnwys:

- Pwyso ar Lywodraeth y DU am Fil Cymru newydd a sicrhau ei fod yn addas at y diben ac yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl;
- Dechrau'r gwaith o sefydlu Comisiwn Cenedlaethol sefydlog ar y Cyfansoddiad;
- Pwyso ar Lywodraeth y DU i lunio a rhoi ar waith fformiwla ariannu newydd sy'n seiliedig ar anghenion.

Mae Llywodraeth Cymru **hefyd wedi cyhoeddi dangosfwrdd** i helpu i olrhain cynnydd o ran ei blaenoriaethau.

# 2. Cyfansoddiad: Y DU

**Daeth Andy Burnham AS yn Brif Weinidog y DU ar 20 Gorffennaf 2026.**

Mae penodiadau allweddol **i'w Gabinet** sy'n ymwneud â Chymru yn cynnwys:

- Stephen Kinnock AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru;
- Anna McMorrin AS yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru;
- Claire Hughes AS yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Swyddfa Cymru ac Arglwydd Iau y Trysorlys;
- Hamish Falconer AS yn Weinidog Gwladol (y Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol a Chysylltiadau Ewropeaidd) ar y cyd yn Swyddfa'r Cabinet a'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu.

**Hefyd ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet bapur polisi ar ddiwygio gweithrediad y wladwriaeth, a oedd yn nodi gweledigaeth Llywodraeth y DU ar gyfer sicrhau twf da ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.**

Mae'r papur yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatganoli yn Lloegr, ond mae'n nodi bod yn rhaid iddo fod yn strategaeth ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan ac yn ymrwymo i weithio gyda'r llywodraethau datganoledig a rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol i ystyried sut y gellir lledaenu manteision grymuso ardaloedd lleol i bob rhan o'r wlad.

**Ym mis Medi 2026, gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad llafar i Dŷ'r Cyffredin ar gyfeiriad ei lywodraeth.**

Dywedodd fod diddordeb mewn sut y gallai model lleol o ddatganoli edrych ym mhob un o wledydd y DU, ac y byddent yn trafod hynny â hwy mewn cyfarfod arbennig o'r **Cyngor Economaidd Cenedlaethol** y mis canlynol.

Yn ddiweddarach yn y datganiad, dywedodd y Prif Weinidog y gallai model o ddatganoli lleol weithio yn yr Alban, yng Nghymru ac o bosibl yng Ngogledd Iwerddon, a'i fod yn barod i'w gefnogi.

Ym mis Awst 2026, **adroddwyd bod y Prif Weinidog wedi dweud** ei fod yn barod i gael y drafodaeth ynghylch datganoli rheolaeth dros blismona i Gymru.

Adroddwyd ei fod wedi dweud bod y diwygiadau ehangach i blismona yn golygu ei bod yn amser da i edrych ar y materion hynny.

**Mae Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi yn cynnal ymchwiliad i fesurau diogelu cyfansoddiadol y DU.**

Bydd yr ymchwiliad yn mynd ati i nodi:

- y mesurau diogelu cyfansoddiadol sy'n bodoli yn system y DU;
- y cryfderau, gwendidau a pheryglon mwyaf arwyddocaol o ran sut y maent yn gweithredu;
- ffyrdd o wneud rhwydwaith y DU o fesurau diogelu yn fwy effeithiol.

Mae'r ymchwiliad yn derbyn tystiolaeth hyd at 28 Medi 2026.

**Ar 3 Mehefin 2026, cynhaliodd y Pwyllgor Cyfansoddiad sesiwn dystiolaeth gyda Nick Thomas-Symonds AS, Gweinidog y Cyfansoddiad a Chysylltiadau Ewropeaidd yn Swyddfa'r Cabinet ar y pryd.**

Roedd y drafodaeth yn cynnwys a yw datganoli wedi bod yn llwyddiant, cysylltiadau rhynglywodraethol, y memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar Gonfensiwn Sewel a fframweithiau cyffredin.

# 3. Cysylltiadau rhynglywodraethol a rhyngseneddol

## Cysylltiadau rhynglywodraethol

**Yn dilyn penodiad Andy Burnham AS yn Brif Weinidog, croesawodd Prif Weinidog Cymru, Rhun ap Iorwerth AS, y cyfle i "ailddiffinio'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU".**

Ychwanegodd y Prif Weinidog ei fod yn gobeithio y gallai'r ddau "rannu'r un ymrwymiad o ran datganoli pwerau o San Steffan trwy gryfhau, yn hytrach nag osgoi, senedd genedlaethol Cymru".

Cyfarfu'r Prif Weinidog a Phrif Weinidog Cymru **yn Glasgow ar 23 Gorffennaf 2026**. Yn y cyfarfod, nododd y Prif Weinidog ei ymrwymiad i gydweithio â Llywodraeth Cymru ac i berthynas sy'n seiliedig ar barch at ei gilydd.

Cyfarfu Prif Weinidog Cymru hefyd â Phrif Weinidog yr Alban, John Swinney ASA. **Dywedodd** Prif Weinidog Cymru ei fod yn:

> *...hyderus y gallwn adeiladu'r berthynas fwyaf cynhyrchiol a chadarnhaol rhwng llywodraeth Cymru a'r Alban ers dyfodiad datganoli.*

**Cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn Belfast ym mis Mehefin 2026.** Mae'r Pwyllgor yn rhan o haen ganol y strwythurau rhynglywodraethol ffurfiol.

Yn y cyfarfod, **pwysleisiodd Llywodraeth Cymru** "ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydweithredu â Llywodraethau y DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon, tra'n pwyso'r achos dros Fil Cymru newydd i roi pwerau i Gymru ar yr un lefel â'r Alban, a galw am gyllid teg i Gymru".

**Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddata chwarterol ar gyfarfodydd rhynglywodraethol ym mis Gorffennaf 2026.**

Mae'r data yn dangos, rhwng 1 Hydref 2025 a 31 Rhagfyr 2025:

> *Ten IGR Review forum meetings took place on topics including health inequalities, public safety, election security, digital innovation in justice, and violence against women and girls. Outside formal IGR*

*structures, there were a further 102 meetings including bilaterals and ministerial visits.*

# 4. Etholiadau ac ymgysylltu

**Cyn yr etholiad:**

**Ar 10 Mawrth 2026, cymeradwyodd y Senedd reoliadau i ddileu'r gofrestr agored yng Nghymru.**

Mae'r rheoliadau yn datgymhwyso'r gofyniad i Swyddogion Cofrestru Etholiadol lunio cofrestrau golygedig o etholwyr llywodraeth leol, neu ddarparu cofrestrau o'r fath neu ran ohonynt i unrhyw berson am ffi.

Roedd hyn yn ofynnol cyn y gellid cyflwyno cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig (gweler isod), o dan Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024. Daw'r rheoliadau i rym ar 1 Hydref 2026.

**Ar 17 Mawrth 2026, cymeradwyodd y Senedd Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Pleidleisio Absennol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026.**

Ymhlith pethau eraill, mae'r rheoliadau yn newid y cyfnod y gall person wneud cais i bleidleisio drwy'r post mewn etholiadau'r Senedd neu etholiadau llywodraeth leol, ac yn ei gwneud yn bosibl cyflwyno ceisiadau am bleidleisio absennol ar-lein ar gyfer yr etholiadau hyn.

**Ym mis Mawrth 2026, cyhoeddodd Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth Llywodraeth Cymru adroddiad cynnydd.**

Canolbwyntiodd y Grŵp ar addysg a gwybodaeth ddemocrataidd ac ar gynnwys y cyhoedd rhwng etholiadau. Galwodd y Grŵp ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwaith a ddechreuwyd gan y Grŵp yn parhau ar ôl gwanwyn 2026.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru ddau adroddiad hefyd, ar gais y Grŵp:

- **Adolygiad o'r dystiolaeth ar brif ffrydio democratiaeth gyfranogol a chydgynghorol yng Nghymru**, a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Ddemocrataidd;
- **Adolygiad o'r dystiolaeth ar gynnwys dinasyddion yn y gwaith o ddrafftio datganiad o egwyddorion cyfansoddiadol a llywodraethu i Gymru**, a gynhaliwyd gan Dr Alex Prior (Prifysgol South Bank Llundain).

**Ar ôl yr etholiad:**

**Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod rheoliadau i ganiatáu cyflwyno trefniadau cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.**

Dywedodd y Gweinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, Sian Gwenllian AS, y **byddai'r rheoliadau** "yn helpu i wella cywirdeb a chyflawnder y gofrestr etholiadol llywodraeth leol, gan fod yn gam pwysig tuag at gryfhau ein democratiaeth." Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio yn **cymryd tystiolaeth** gan randdeiliaid ar y rheoliadau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Anfonodd Cyngor Ewrop ddirprwyaeth i arsylwi'r etholiadau a gynhaliwyd yn y DU ar 7 Mai 2026, gan gynnwys etholiad y Senedd.**

Rhoddodd y ddirprwyaeth asesiad cadarnhaol ar y cyfan, ond nododd rai pryderon, gan gynnwys rhai ynghylch cynllun gorsafoedd pleidleisio a chofrestru pleidleiswyr.

**Mae Bil Cynrychiolaeth y Bobl yn mynd rhagddo drwy Senedd y DU.** Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae wedi cyrraedd yr ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Bydd y Bil yn gwneud nifer o newidiadau i etholiadau yng Nghymru, gan gynnwys:

- gostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau Senedd y DU;
- diweddaru'r rheolau ynghylch cofrestru pleidleiswyr;
- diwygio ymgyrchoedd etholiadol a gwariant gwleidyddol;
- ehangu swyddogaethau gorfodi'r Comisiwn Etholiadol.

Gosododd Llywodraeth Cymru Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil ar **16 Mehefin 2026** a **4 Awst 2026**. Nid yw wedi gwneud argymhelliad eto ynghylch a ddylai'r Senedd gydsynio i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil.

**Ym mis Mawrth 2026, cyhoeddodd Llywodraeth y DU adroddiad yr adolygiad annibynnol o wrthsefyll dylanwad ariannol tramor ac ymyrraeth mewn gwleidyddiaeth yn y DU (Adolygiad Rycroft).**

Mae'r Adroddiad yn gwneud 17 o argymhellion, y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl i Senedd y DU. Cyhoeddodd Llywodraeth y

DU **ei hymateb** ym mis Gorffennaf 2026, gan dderbyn yr argymhellion naill ai'n llawn neu mewn egwyddor.

Hefyd ym mis Gorffennaf 2026, **cynhaliodd Tŷ'r Cyffredin ddadl** ar ymyrraeth o dramor yng ngwleidyddiaeth y DU. Ymrwymodd Llywodraeth y DU ar y pryd i weithio'n gyflym gyda chyrff gorfodi'r gyfraith, y Comisiwn Etholiadol, awdurdodau erlyn, y llywodraethau datganoledig a phleidiau gwleidyddol i ddatblygu cynigion.

# 5. Deddf Marchnad Fewnol y DU a fframweithiau cyffredin

**Cyn yr etholiad:**

**Ym mis Chwefror 2026, rhoddodd Llywodraeth flaenorol Cymru y wybodaeth ddiweddaraf am ail gam y gwaharddiadau ar gynhyrchion plastig untro.**

Roedd y datganiad ysgrifenedig yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn “ymrwymo i weithio ar y cyd drwy'r brosesau Fframwaith Cyffredin i gytuno ar waharddiad y UKIMA sydd ei angen ar gyfer y ddeddfwriaeth hon”. Ychwanegodd nad oedd, oherwydd hyn, ddigon o amser i roi’r gwaharddiadau ar waith cyn diwedd tymor blaenorol y Senedd.

**Ym mis Mawrth 2026, cymeradwyodd y Senedd reoliadau i alluogi Cynllun Dychwelyd Ernes, ar gyfer dychwelyd cynwysyddion diodydd i’w hailgylchu a’u hailddefnyddio.**

Ym mis Chwefror 2026, nododd **datganiad ysgrifenedig** Llywodraeth flaenorol Cymru ar y rheoliadau fod Llywodraeth flaenorol y DU wedi dewis gwyro oddi wrth y cwmpas y cytunwyd arno, sef cynnwys gwydr yn y cynllun. O ganlyniad, bu’n rhaid i Lywodraeth Cymru geisio eithriad o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU. **Cytunodd** Llywodraeth y DU i’r eithriad.

**Ym mis Mawrth 2026, cwblhawyd tri fframwaith cyffredin: taliadau hwyr; diogelwch ac ansawdd gwaed; ac organau, meinweoedd a chelloedd (ac eithrio embryonau a gametau). Daeth hyn â chyfanswm y fframweithiau a gwblhawyd gyda chyfraniad gan Lywodraeth Cymru i bedwar o blith 26.**

**Dywedodd** Llywodraeth flaenorol Cymru ei bod yn “gobeithio y bydd rhagor o fframweithiau yn y categori hwn yn gallu cael eu cwblhau a’u cymeradwyo gan bob un o'r pedair llywodraeth, gan gynnwys fframweithiau yn ymwneud â Gwrtaith, Caffael Cyhoeddus a Sylweddau Ymbelydrol.”

Ym mis Ionawr 2026, **awgrymodd** Llywodraeth flaenorol y DU fod deg fframwaith arall yn barod i gael eu symud ymlaen i’r cam cyhoeddi.

**Ym mis Mawrth 2026, ymatebodd Llywodraeth flaenorol Cymru i argymhellion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, a wnaed yn ei adroddiad ar Fframweithiau Cyffredin ym mis Mai 2023.**

Derbyniodd Llywodraeth Cymru 13 o argymhellion yn llawn, derbyniodd 5 mewn egwyddor a gwrthododd 3.

Ym mis Mawrth 2026, **cyhoeddodd Swyddfa'r Farchnad Fewnol ei phedwerydd adroddiad blynyddol**.

Mae'r adroddiad yn nodi bod "gweithrediad marchnad fewnol y DU yn sefydlog ac mae'r farchnad fewnol, yn ei chyfanrwydd, yn parhau i weithredu'n effeithiol yn gyffredinol". Ychwanegodd fod "angen cydweithrediad agos rhwng llywodraethau mewn perthynas â sectorau penodol lle rydym wedi arsylwi'r potensial i wahaniaethau rheoleiddiol ddod i'r amlwg".

**Ar ôl yr etholiad:**

**Ym mis Gorffennaf 2026, cyhoeddodd Swyddfa'r Farchnad Fewnol adolygiad o'r rhyngweithio rhwng Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 a Rheoliadau Ansawdd Aer (Safonau Tanwyddau Solet Domestig) 2020 Lloegr.**

Canfu'r adolygiad:

> *...if the current regulatory status quo is maintained then customers in England will continue to purchase increasing quantities of uncertified fuels, with a consequent risk of worsening air quality in England.*

Ychwanegodd y byddai eithriad o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn amod angenrheidiol er mwyn galluogi'r Rheoliadau Tanwyddau Solet Domestig i gael yr effaith a fwriadwyd.

**Ym mis Awst 2026, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod Exchange for Change wedi'i benodi'n Sefydliad Rheoli Ernes y Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd yng Nghymru.**

Bydd Exchange for Change hefyd yn rheoli'r cynlluniau dychwelyd ernes yng ngweddill y DU. Cadarnhaodd y Gweinidog Cabinet y bydd y cynllun yn cynnwys cynwysyddion diodydd plastig (PET), metel a gwydr o'r diwrnod cyntaf, ond, yn unol â'r rheoliadau a gymeradwywyd gan y Senedd, y bydd cyfnod pontio o bedair blynedd yn weithredol ar gyfer cynwysyddion gwydr. Bydd hyn yn eu heithrio o'r gofynion labelu a bydd ganddynt ernes o sero ceiniog.

# 6. Cydsyniad deddfwriaethol a deddfu

**Cyn yr etholiad:**

**Ym mis Chwefror 2026, ysgrifennodd Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, Dr Andrew Goodall, at Mark Isherwood AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar y pryd, gyda gwybodaeth am ddatblygu a chyflwyno deddfwriaeth.**

Nododd y llythyr fod Is-adran Ddeddfwriaeth ganolog dan arweiniad Uwch Was Sifil wedi'i chyflwyno.

Nododd hefyd themâu agenda ddiwygio barhaus y gwasanaeth sifil yn y maes hwn, gan gynnwys datblygu gwell dealltwriaeth o'r llyfr statud a sicrhau deddfwriaeth lai o faint â ffocws mwy penodol.

**Ar ôl yr etholiad:**

**Ym mis Gorffennaf 2026, amlinellodd y Prif Weinidog, Rhun ap Iorwerth AS, "gam cyntaf y ddeddfwriaeth" y bydd Llywodraeth Cymru yn ei chyflwyno i'r Senedd.**

Roedd y datganiad yn cynnwys ymrwymiadau ynghylch diwygio dŵr, tai a datblygu hawl gymunedol i brynu. Mae Ymchwil y Senedd wedi **llunio crynodeb** o'r ymrwymiadau.

**Ym mis Gorffennaf 2026, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol egwyddorion diwygiedig gan Lywodraeth Cymru ynghylch deddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig.**

O ran Confensiwn Sewel, nododd y Cwnsler Cyffredinol:

> *...safbwynt [Llywodraeth Cymru] o hyd yw bod angen mesurau diogelu statudol yn y pen draw i ddiogelu'r setliad datganoli, ond byddwn hefyd yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ei hymrwymiad yn ei maniffesto i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Gonfensiwn Sewel.*

**Yn dilyn cais Rhyddid Gwybodaeth, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar ei gallu a'i chapasiti i ddatblygu deddfwriaeth, a gynhaliwyd yn 2022.**

Canfu'r adroddiad fod uchelgeisiau deddfwriaethol Gweinidogion wedi'u llesteirio gan gyfuniad o broblemau o ran sgiliau a chapasiti, yn ogystal ag aneffeithlonrwydd posibl yn y broses. Mae'n awgrymu 25 o opsiynau ar gyfer newid, gan gynnwys pum 'opsiwn allweddol'.